**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-RE-0360-20

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

10 Chwefror 2021

Annwyl Llyr,

Roeddwn am roi gwybod i’r Pwyllgor fod Trysorlys ei Mawrhydi wedi cymeradwyo blaenswm o hyd at £3.8bn o Gronfa Hapddigwyddiadau'r DU i Swyddfa Cymru yn ddiweddar. Bydd y blaendaliad hwn yn galluogi Ysgrifennydd Gwladol Cymru i fodloni’r rhagolwg o ran y gofynion arian parod Llywodraeth Cymru cyn i Senedd y DU gymeradwyo Amcangyfrifon Atodol 2020-21 a ddisgwylir ym mis Mawrth.

Mewn amgylchiadau tebyg i’r blaendaliad a oedd yn ofynnol ym mis Gorffennaf 2020, o ganlyniad i'r gwariant ychwanegol digynsail sydd wedi digwydd mewn ymateb i bandemig y coronafeirws, nid yw terfyn yr arian parod a awdurdodwyd gan y Prif Amcangyfrifon 2020-21 ym mis Gorffennaf yn ddigon i gwmpasu'r arian parod sydd ei angen cyn i’r Amcangyfrif Atodol gael ei gymeradwyo ym mis Mawrth. Gan nad oes gennym reolaeth dros yr amserlen gymeradwyo honno, rydym wedi gofyn am flaendaliad ar gyfer yr amcangyfrif uchaf o ran y gofyniad arian parod.

Mae'r Gronfa Hapddigwyddiadau yn weithdrefn safonol yn y DU i gael gafael ar arian i fodloni'r angen tymor byr cyn i'r Amcangyfrif Atodol gael ei gymeradwyo a chaiff ei ad-dalu unwaith y caiff yr Amcangyfrif Atodol ei gymeradwyo. Bydd Swyddfa Cymru yn rhoi cyfrif am y blaendaliad a’r ad-daliad.

Gobeithio y bydd y wybodaeth hon o ddefnydd i chi. Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Archwilydd Cyffredinol Cymru er gwybodaeth.

Yn gywir,

Rebecca Evans.

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.